Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro
Cardiff & Vale Safeguarding Board



# Wythnos Diogelu Genedlaethol

**9 - 13 Tachwedd 2026**

## RHAGLEN DDIGWYDDIADAU

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

# DYDD LLUN 9 TACHWEDD

**10:00-11:00**

Cliciwch yma i archebu lle drwy Eventbrite

## Hanfodion Datgelu a Gwahardd GDG

| **Owain Rowlands** - Cynghorydd Allgymorth Rhanbarthol GDG Cymru.

Mae'r gweithdy awr o hyd hwn yn rhoi trosolwg o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG), gan gwmpasu meini prawf cymhwysedd gwirio GDG a chyfrifoldebau sefydliadau am wneud atgyfeiriadau gwahardd.

Ymunwch â'r sesiwn awr hon, a gynhelir gan Owain Rowlands, Cynghorydd Allgymorth Rhanbarthol GDG Cymru.

Mae Owain yn gweithio gyda sefydliadau o bob maint a sector ledled Cymru, i'w helpu i ddeall pwysigrwydd diogelu a rôl y GDG o ran recriwtio a rheoli'r gweithlu yn fwy diogel.

**Bydd y gweithdy hwn yn trafod:**

- Rôl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Diweddariadau diweddar i'r rhai sy'n gyfarwydd â'r GDG eisoes
- Deall gwiriadau a chymhwysedd y GDG, gan gynnwys gweithlu a lefel y gwiriad
- Beth yw gweithgaredd rheoleiddiedig
- Dyletswyddau a chyfrifoldebau sefydliad wrth wneud atgyfeiriadau i'r GDG
- Deall proses wahardd y GDG a chanlyniadau cael eich rhoi ar un neu'r ddwy restr wahardd

Mae'r gweithdy hwn yn addas i unrhyw un sydd â chyfrifoldeb am brosesau'r GDG a diogelu, gan gynnwys:

- Unigolion sy'n pennu lefel gwiriad y GDG sy'n ofynnol
- Staff sy'n ymwneud â recriwtio
- Gweithwyr proffesiynol AD
- Rheolwyr unigolion sy'n ymwneud â gweithgaredd rheoleiddiedig
- Arweinwyr diogelu a'r rhai mewn swyddi ymddiriedaeth
- Ymddiriedolwyr
- Y rhai sy'n ymwneud â gwneud atgyfeiriadau i'r GDG

**11:00-12:00**

Cliciwch yma i archebu lle drwy Eventbrite

## Cyflwyniad i Atal Hunanladdiad a Gwasanaethau Papyrus

| **Erin Williams** - Swyddog Atal Hunanladdiad, Papyrus

Bydd y sesiwn yn rhoi cyflwyniad i'r elusen Atal Hunanladdiad ieuenctid Papyrus a'r gwasanaethau y gall eu cynnig i'r rhai sydd â meddyliau am hunanladdiad ac eraill sy'n pryderu er mwyn cadw person yn ddiogel. Bydd hefyd yn trafod rhai camsyniadau cyffredin ynghylch hunanladdiad.

Mae'r gweithdy hwn yn addas ar gyfer:

- Gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol

## 13:00-14:30

[Cliciwch yma i archebu lle drwy Eventbrite]

## O Grŵmio i Gamfanteisio: Deall y risgiau sy'n wynebu pobl ifanc heddiw

| **Wes Cunliffe -** Eiriolwr Atal Trais Ieuenctid

Wedi'i chyflwyno gan Wes Cunliffe, ymarferydd diogelu profiadol a goroeswr camfanteisio a thrais difrifol, bydd y sesiwn bwerus a diddorol hon yn archwilio realiti camfanteisio'n droseddol ar blant, troseddau cyllyll, grŵmio ar-lein a'r ffactorau sy'n gwneud pobl ifanc yn agored i niwed. Gan dynnu ar brofiad byw, ymarfer diogelu rheng flaen, ac enghreifftiau o achosion bywyd go iawn, bydd Wes yn herio camsyniadau cyffredin ynghylch camfanteisio ac yn rhoi dealltwriaeth ddyfnach i weithwyr proffesiynol o'r byd y mae llawer o bobl ifanc yn ei lywio heddiw.

Bydd y sesiwn yn archwilio sut mae camfanteisio wedi esblygu, rôl y cyfryngau cymdeithasol mewn grŵmio a recriwtio, effaith dylanwadau ar-lein niweidiol, a pham mae deall diwylliant ieuenctid yn hanfodol ar gyfer diogelu effeithiol. Bydd mynychwyr yn derbyn mewnwelediad ymarferol i adnabod risg, ymgysylltu â theuluoedd, nodi agored i niwed cudd, a chryfhau ymatebion amlasiantaethol i amddiffyn plant a phobl ifanc.

### Beth fydd y Sesiwn yn ei Drafod

- Deall camfanteisio'n droseddol ar blant a'r broses grŵmio.
- Sut mae troseddwyr cyfundrefnol yn recriwtio ac yn trin pobl ifanc ar-lein ac all-lein.
- Llinellau cyffuriau, tai trap, caethiwed dyled a thactegau camfanteisio.
- Mythau a realiti troseddau cyllell.
- Dylanwad y cyfryngau cymdeithasol, cerddoriaeth, statws a diwylliant ar-lein.
- Risgiau sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â Snapchat a llwyfannau digidol eraill.
- Ymwybyddiaeth o wrywdod, dylanwadwyr ar-lein a'u heffaith ar bobl ifanc.
- Adnabod arwyddion cudd o gamfanteisio ac ofn teuluol.
- Ymatebion diogelu amlasiantaethol effeithiol a rhannu gwybodaeth.
- Gweithio gyda phlant a phobl ifanc AAAA sy'n profi camfanteisio a "throseddau cyfeillio".
- Dysgu o astudiaethau achos bywyd go iawn a phrofiad byw.

Bydd y sesiwn hon yn berthnasol i'r canlynol:

- Gweithwyr Cymdeithasol
- Athrawon a Staff Addysg
- Arweinwyr Diogelu
- Ymarferwyr Cyfiawnder Ieuenctid
- Swyddogion yr Heddlu a SCCH
- Ymarferwyr Cymorth Cynnar
- Gweithwyr Ieuenctid
- Gweithwyr Iechyd Proffesiynol
- Sefydliadau Trydydd Sector
- Unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd a allai fod yn agored i gamfanteisio.

# DYDD MAWRTH 10 TACHWEDD

**10:00-11:00**

**Cliciwch yma i archebu lle drwy Eventbrite**

## Diogelu ar Waith: Deall Risgiau Cymhleth a Niwed Cudd

| **Louise Hughes -** Pennaeth Diogelu ac Eiriolaeth, Age Cymru

Mae'r sesiwn yn tynnu sylw at batrymau, heriau systemig, a phwyntiau dysgu, cyn nodi opsiynau ar gyfer argymhellion ymarferol i gryfhau ymyrraeth gynnar, gwaith amlasiantaethol ac amddiffyn oedolion mewn perygl. Mae'r cyflwyniad hwn yn rhoi trosolwg o fewnwelediadau diogelu a dynnwyd o gofnodion achosion Age Cymru ledled Cymru rhwng Medi 2025 a Mawrth 2026. Mae'n archwilio themâu allweddol gan gynnwys cam-drin ariannol, rheolaeth drwy orfodaeth, hunan-esgeulustod, bregusrwydd sy'n gysylltiedig â dementia, tôr-perthynas â gofalwr, a cham-drin domestig.

Mae'r gweithdy hwn yn addas ar gyfer:

- Gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol sy'n gweithio gyda phobl hŷn a theuluoedd.

**13:00-14:00**

**Cliciwch yma i archebu lle drwy Eventbrite**

## Stori Honor: Dysgu o Drasiedi i Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Risgiau Cetamin

| **Sarah Green -** Sylfaenydd H23 Foundation

Yn y sesiwn bwerus ac ingol hon, bydd Sarah Green, sylfaenydd H23 Foundation, yn rhannu stori ei merch Honor a'r amgylchiadau a arweiniodd at ei marwolaeth drasig o ganlyniad i ddibyniaeth ar getamin.

Gan dynnu ar ei phrofiad byw a'r wybodaeth y mae hi wedi'i dysgu ers marwolaeth Honor, bydd Sarah yn archwilio'r effaith ddinistriol y gall camddefnyddio sylweddau ei chael ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd y sesiwn yn tynnu sylw at y risgiau cynyddol sy'n gysylltiedig â defnyddio cetamin, yr arwyddion rhybuddio y gellir eu colli, a'r heriau y mae teuluoedd yn eu hwynebu'n aml wrth geisio cymorth a chefnogaeth.

Bydd Sarah yn myfyrio ar y gwersi y mae hi wedi'u dysgu am y bylchau o fewn systemau a gwasanaethau hefyd, gan archwilio sut y gall gweithwyr proffesiynol, sefydliadau a chymunedau weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol i nodi pryderon yn gynnar, ymateb yn briodol, ac atal niwed. Trwy drafodaeth onest ac ysgogol, bydd yn annog ymarferwyr i ystyried sut y gellir cryfhau dulliau diogelu i amddiffyn plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn well.

Bydd y sesiwn yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar draws meysydd diogelu, addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, plismona a'r trydydd sector, gan gynnig dysgu ymarferol a chyfleoedd i fyfyrio.

Mae'r gweithdy hwn yn addas ar gyfer:

- Gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd.

### Deilliannau Dysgu

Trwy fynychu'r sesiwn hon, bydd cynrychiolwyr yn:

- Cael gwell dealltwriaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio cetamin ymhlith plant a phobl ifanc.
- Clywed yn uniongyrchol am effaith dibyniaeth ar gyffuriau ar blentyn, teulu a’r gymuned ehangach.
- Archwilio’r rhwystrau y gall teuluoedd eu hwynebu wrth geisio cymorth.
- Myfyrio ar wersi diogelu a chyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynharach.
- Ystyried sut y gall asiantaethau weithio gyda'i gilydd i wella ymwybyddiaeth, adnabod a chymorth i blant a phobl ifanc agored i niwed.
- Cryfhau dealltwriaeth o'u rôl wrth atal niwed a hyrwyddo canlyniadau mwy diogel.

---

## 14:00-15:00

## Rhwydweithiau Cym: Rhybudd ar gyfer Partneriaethau Diogelu Plant | **Pencadlys Plismona Gwrthderfysgaeth**

Microsoft Teams

**Cyfeirnod y Cyfarfod:** 359 474 427 732 736

**Cod cyfrin:** kd6ca3rb

Bydd y sesiwn hon yn rhoi trosolwg o'r bygythiad sy'n dod i'r amlwg yn sgil Rhwydweithiau Cym a'u heffaith ar blant a phobl ifanc. Bydd yn archwilio sut mae'r rhwydweithiau ar-lein hyn yn grŵmio, yn trin ac yn camfanteisio ar unigolion agored i niwed, gan gynnwys cysylltiadau â chamfanteisio’n droseddol ar blant, cam-drin rhywiol ar-lein, hunan-niweidio, seiberdroseddu a thrais difrifol. Bydd y sesiwn yn helpu gweithwyr proffesiynol i adnabod arwyddion a dangosyddion rhybuddio, deall y risgiau i blant, ac ystyried ymatebion diogelu effeithiol a llwybrau atgyfeirio pan fydd pryderon yn cael eu nodi.

> Mae'r sesiwn hon wedi'i threfnu gan y Pencadlys Plismona Gwrthderfysgaeth, ac mae'n sesiwn allanol.

Mae'r gweithdy hwn yn addas ar gyfer:

- Gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd.

**14:30-16:30**

[Cliciwch yma i archebu lle drwy Eventbrite]

## Diogelu, Defnyddio Sylweddau ac Anghenion Lluosog: Deall Risg, Capasiti a Mynediad at Gymorth

| **Samantha Drohan** a **Dave Vice** Adferiad

Bydd y sesiwn 2 awr ryngweithiol hon yn archwilio diogelu wrth weithio gyda phobl sy'n profi defnyddio sylweddau ac anghenion cymhleth eraill.

Bydd y sesiwn yn edrych ar y ffordd y gall defnyddio sylweddau effeithio ar risg, gwneud penderfyniadau a chapasiti, yn ogystal â rhai o'r rhwystrau y gall pobl eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at gymorth. Bydd y cyfranogwyr yn archwilio ffyrdd ymarferol o adnabod ac ymateb i bryderon diogelu ac yn ystyried sut y gall gwasanaethau gwahanol weithio gyda'i gilydd i gefnogi pobl yn effeithiol.

Bydd y sesiwn yn defnyddio enghreifftiau bywyd go iawn, trafodaeth a gweithgareddau ymarferol i helpu staff i deimlo'n fwy hyderus wrth ymateb i bryderon diogelu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n ystyriol o drawma.

### Deilliannau Dysgu

Erbyn diwedd y sesiwn bydd y cyfranogwyr yn gallu:

- Adnabod risgiau diogelu sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau ac anghenion cymhleth.
- Deall sut y gall defnyddio sylweddau effeithio ar gapasiti, gwneud penderfyniadau a risg.
- Ymateb yn hyderus i bryderon diogelu gan ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n ystyriol o drawma.
- Gweithio'n effeithiol gyda gwasanaethau eraill i reoli risg a chefnogi pobl.

Mae'r gweithdy hwn yn addas ar gyfer:

- Cynulleidfa diogelu amlasiantaethol, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gydag oedolion a phlant.

# DYDD MERCHER 11 TACHWEDD

**10:00-12:00**

[Cliciwch yma i archebu lle drwy Eventbrite]

## Tarfu ar Gamfanteisio

**| Alice Walton -** Rheolwr Gwasanaeth y De, Cymdeithas y Plant

Er mwyn torri cylch camfanteisio a cham-drin mae angen i ni dargedu'r rhai hynny sy'n gyfrifol. Trwy ddefnyddio dulliau creadigol a manteisio i'r eithaf ar y ddeddfwriaeth sydd ar gael, gallwn sicrhau bod troseddwyr yn derbyn dedfrydau priodol am eu troseddau a helpu i'w hatal rhag targedu plant a phobl ifanc yn y dyfodol.

Os ydych chi'n gweithio gyda phlant ac oedolion ifanc (0-25 oed) sy'n profi neu mewn perygl o gamfanteisio a cham-drin, mae gennych ran hanfodol i'w chwarae wrth darfu ar eu camfanteisio ac atal y troseddwyr sy'n gyfrifol. Dim ond wrth i bawb chwarae eu rhan yn y tarfu y byddwn yn gallu cadw pob plentyn ac oedolyn ifanc yn ddiogel wrth dargedu'r rhai sy'n elwa ar y cam-drin.

### Beth fydd y Sesiwn yn ei Drafod

- Archwilio beth mae tarfu yn ei olygu, yr offer sydd ar gael a'u rôl hanfodol o fewn cynlluniau diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion ifanc
- Archwilio'r defnydd o'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern wrth darfu ar droseddwyr camfanteisio a'r defnydd o erlyniadau a arweinir gan dystiolaeth
- Trafod pwysigrwydd dull amlasiantaethol o darfu
- Dangos tystiolaeth o arfer gorau trwy ddysgu o astudiaethau achos bywyd go iawn
- Ystyried cymhwyso mesurau tarfu ar gyfer y rhai sy'n pontio o blentyndod i fod yn oedolyn.
- Archwilio'r rhwystrau a'r cyfyngiadau i'r ddeddfwriaeth gyfredol a gorchmynion sifil am wersi gwerthfawr i fynychwyr.

Mae'r gweithdy hwn yn addas ar gyfer:

- Cynulleidfa diogelu amlasiantaethol, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion ifanc.

**13:00-14:00**

[Cliciwch yma i archebu lle drwy Eventbrite]

## Diogelu Effeithiol

| **Susie Boxall** - Coleg Adfer a Lles Caerdydd a'r Fro

Bydd y sesiwn rithwir ryngweithiol hon yn archwilio sylfeini ymarfer diogelu effeithiol trwy lens chwilfrydedd proffesiynol, dulliau sy'n seiliedig ar drawma a diogelu oedolion. Gan dynnu ar brofiad Coleg Adfer a Lles y GIG, bydd y sesiwn yn ystyried sut y gall dulliau seicoaddysgol, ymarfer seiliedig ar berthynas a sgyrsiau ystyrlon rhwng cymheiriaid gefnogi adferiad, lles a chanlyniadau mwy diogel i oedolion, teuluoedd a chymunedau.

Gan gyfuno safbwyntiau proffesiynol a phrofiad byw, bydd cyfranogwyr yn cael eu hannog i fyfyrio ar sut y gall deall trawma, meithrin ymddiriedaeth a chreu cyfleoedd ar gyfer sgyrsiau cefnogol gryfhau ymarfer diogelu. Bydd y sesiwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd rhannu gwybodaeth, gweithio mewn partneriaeth a lles ymarferwyr wrth hyrwyddo diogelu effeithiol mewn lleoliadau iechyd a chymunedol.

### Beth fydd y Sesiwn yn ei Drafod

- Deall a chymhwyso chwilfrydedd proffesiynol mewn ymarfer diogelu.
- Egwyddorion ymarfer sy'n seiliedig ar drawma a sut maent yn cefnogi adferiad, lles a diogelu yn y GIG a lleoliadau cymunedol.
- Archwilio hanfodion diogelu oedolion a hyrwyddo diogelwch trwy ddulliau cydweithredol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Rôl y Coleg Adfer a Lles wrth gefnogi unigolion trwy ddysgu seicoaddysgol, cymorth cymheiriaid ac ymyriadau sy'n canolbwyntio ar les.
- Deall gwerth sgyrsiau rhwng cymheiriaid, profiad byw ac ymarfer seiliedig ar berthynas wrth adnabod risg a chefnogi adferiad.
- Gweithio'n effeithiol gyda theuluoedd, cymunedau ac asiantaethau partner i wella canlyniadau diogelu.
- Rôl rhannu gwybodaeth a gwaith amlasiantaethol i atal niwed a chefnogi unigolion ar yr adeg iawn.

Mae'r gweithdy hwn yn addas ar gyfer:

- Gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd.

# DYDD IAU 12 TACHWEDD

**10:00-11:00**

Cliciwch yma i archebu lle drwy Eventbrite

## Gweminar Trawma Dirprwyol a Gwydnwch – Llwybrau Newydd | **Matt Morandi -** Swyddog Hyfforddi a Datblygu/ Cwnselydd a Darlithydd

Bydd y weminar hon yn ymdrin â beth yw trawma dirprwyol, yr arwyddion a'r effeithiau ynghyd â ffactorau amddiffynnol a thechnegau hunan-ofal.

*"Mae'r disgwyliad y gallwn ni ymgolli mewn dioddefaint a cholled bob dydd heb i hynny effeithio arnom, mor afrealistig â disgwyl gallu cerdded trwy ddŵr, heb wlychu." (Remen, 2006).*

'Nid yw ein swyddi yn dod gyda rhybuddion iechyd, ond efallai y dylen nhw. Mae'n anochel y bydd cefnogi pobl sydd wedi profi trawma yn effeithio arnom ni. Mae trawma dirprwyol yn effeithio ar bob agwedd ar ein bywydau, gall hyn fod yn fyrdymor neu'n hirdymor. Mae'r weminar hon yn cyflwyno effaith gweithio gyda'r rhai sydd wedi profi trawma a sut y gallwn ofalu am ein hunain, a'n gilydd, i atal trawma dirprwyol a pharhau i ddarparu cymorth effeithiol.'

Mae'r gweithdy hwn yn addas ar gyfer:

- Cynulleidfa diogelu amlasiantaethol:

**11:30-12:30**

Cliciwch yma i archebu lle drwy Eventbrite

## Graddfa a Natur Cam-drin Plant yn Rhywiol a'i Oblygiadau ar gyfer Ymarfer | **Anna Glinski -** Dirprwy Gyfarwyddwr, Canolfan CPRh

Bydd y sesiwn hon yn cyflwyno'r canfyddiadau diweddar o adroddiad newydd y Ganolfan CPRh – Graddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol: Adolygu tystiolaeth – dadansoddiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth o gam-drin plant yn rhywiol ledled Cymru a Lloegr. Mae'r canfyddiadau'n llwm ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd pob gweithiwr proffesiynol wrth oresgyn y rhwystrau a'r heriau yn ymarferol er mwyn nodi ac ymateb yn effeithiol i bryderon cam-drin plant yn rhywiol.

Bydd cyfranogwyr yn cael eu gwahodd i fyfyrio ar y rhwystrau y maent yn eu hwynebu, yn unigol ac yn systemig, ac yn cael eu cyflwyno i adnoddau allweddol i'w cefnogi i nodi arwyddion a dangosyddion, cyfathrebu â phlant a theuluoedd, a gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gefnogi a diogelu plant.

Mae'r gweithdy hwn yn addas ar gyfer:

Gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd.

## 13:00 – 14:00

## Rôl Diogelu mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | Addysg Cwtch

[Cliciwch yma i archebu lle drwy Eventbrite]

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu, trwy helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i adnabod pryderon, deall perthynas iach, cyfleu ffiniau a chael cymorth pan fo angen. Bydd y sesiwn ryngweithiol hon yn archwilio'r cysylltiad rhwng ACRh a diogelu, gan dynnu sylw at y ffordd y gall dysgu ataliol ac amddiffynnol leihau bod yn agored i niwed a chefnogi plant i gadw'n ddiogel. Trwy drafodaeth a sefyllfaoedd ymarferol, bydd cyfranogwyr yn archwilio'r ffordd y gall ACRh weithredu fel offeryn diogelu ataliol a'r ffordd y gall gweithwyr proffesiynol o sectorau gwahanol weithio gyda'i gilydd i atgyfnerthu negeseuon amddiffynnol allweddol.

**Cyflwynir gan Addysg Cwtch, prosiect addysg a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ledled Cymru**

Mae'r gweithdy hwn yn addas ar gyfer:

gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ar draws addysg, gofal cymdeithasol, iechyd, gwasanaethau ieuenctid, plismona a'r trydydd sector, yn enwedig y rhai sydd â chyfrifoldeb dros ddiogelu, lles, atal ac ymyrraeth gynnar.

# DYDD GWENER 13 TACHWEDD

## 9am - 5pm

## Cynhadledd Ddiogelu BDCF

Canolfan yr Holl Genhedloedd, Sachville Avenue, Caerdydd, Cymru, CF14 3NY

[Cliciwch yma i brynu tocynnau]

Bydd Cynhadledd BDCF yn adeiladu ar thema Wythnos Diogelu Genedlaethol eleni, **"Hanfodion Diogelu"**, gyda phrif siaradwyr yn cyflwyno ystod o gyflwyniadau sy'n archwilio'r thema mewn mwy o fanylder. Bydd rhaglen y prynhawn yn cynnwys cyfres o weithdai rhyngweithiol, gan roi cyfleoedd i'r mynychwyr wella eu gwybodaeth a'u hymarfer ymhellach.

Mae'r gweithdy hwn yn addas ar gyfer:

- Cynulleidfa amlasiantaethol